

Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2013 (7.00 yh)

Presennol:

Stan Zalot
J E Lewis
Cliff Everett
R E Hughes
Elfed Jones
Geraint Parry
Jack Jones
John Jukes
R E Rowlands
Ian Owen
Einion Parry Williams
Arnold Milburn
Margaret A Thomas
Jack Abbott
Michael Dolan
Edward Williams
Anna Jones
Edna M Jones
Margaret Price
Neil R Tuck
Gwenda Owen

Cynghorau Tref a Chymuned

Biwmares
Bodffordd; Llangristiolus
Caergybi
Llanbadrig
“ “
Llanddona; Llangoed
Llanerchymedd
“ “
Llanfaelog
Llanfihangelesceifiog
“ “
Llangefni
“ “
Trearddur
“ “
“ “
Tref Alaw
Trewalchmai
“ “
Y Fali
“ (Hefyd yn cynrychioli'r Cyngor
Sir ar eitem 2)

Cyng Bryan Owen
Cyng W J Chorlton
Gwen Carrington
Gill Lewis

Clare Williams
Huw Jones
Gwenda Owen
Mary Sillitoe
Rhian Wyn Hughes

Hefyd yn bresennol:
Cyng T H Jones

Ymddiheuriadau:
Marilyn Hughes
Linda Frazer-Williams
Gwenda Parry
Cyng G O Parry MBE

Cyngor Sir Ynys Môn

Arweinydd (Cadeirydd)
Deilydd Portffolio – Cyllid, TGCh ac AD
Cyfarwyddwr Cymuned
Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro –
Adnoddau
Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau
Pennaeth Gwasanaeth – Polisi
Swyddog Tai Gweigion (eitem 2)
Hwylusydd Tai Gwledig
Swyddog Polisi

Cyngor Sir Ynys Môn

Amlwch
Porthaethwy
Moelfre
Cyngor Sir Ynys Môn

1. Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2012 fel rhai cywir.

Mater yn codi:

Siarter Cynghorau Tref a Chymuned ar y Cyd

Gofynnodd J E Lewis (Bodffordd; Llangristiolus) beth oedd statws y Siarter uchod. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth – Polisi bod y Siarter wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Comisiynwyr y Cyngor yn 2012 a'i bod felly yn weithredol. Ychwanegodd Arnold Milburn (Llangefni) bod angen i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu'r Siarter yn ffurfiol hefyd.

2. Tai Gweigion a Thai Gwledig

Cafwyd cyflwyniadau gan Hwylusydd Tai Gwledig a Swyddog Tai Gweigion y Cyngor, yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r uchod ynghyd ag ymagwedd y Cyngor tuag at fynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu hwynebu.

Pwysleisiwyd bod gan y Cynghorau Tref a Chymuned rôl allweddol i chwarae mewn cynorthwyo'r Cyngor Sir trwy ddarparu gwybodaeth leol a chodi ymwybyddiaeth yn lleol am beth sydd ar gael i berchenogion eiddo gwag a phrynwyr tro cyntaf. Diolchodd y swyddogion i gynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned am y cymorth a gafwyd ganddynt yn y gorffennol ac fe'u hanogwyd i barhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor.

Dilynwyd y cyflwyniadau gyda sesiwn cwestiwn ac ateb.

Dywedodd Cliff Everett (Caergybi) bod angen i bolisi gosod tai'r Cyngor fod yn fwy hyblyg, yn arbennig o ran y cyfyngiadau oed a roddir ar rai eiddo a hefyd y system dyrannu pwyntiau.

Gweithredu: Gwasanaethau Tai i adnabod a rhoi sylw i rwystrau posib o ran cwrdd ag anghenion tai ym mholisi gosod tai'r Cyngor.

3. Cwrdd â'r Heriau – Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2013/14

Agorodd y Cyng W J Chorlton y drafodaeth ar y ddogfen ymgynghorol ar y gyllideb trwy bwysleisio bod gweithio mewn partneriaeth yn bwysicach nag erioed os yw'r ynys am fynd i'r afael â'r heriau dirfawr o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Yna fe wahoddwyd sylwadau gan y llawr. Ceir crynodeb isod o'r prif bwyntiau a godwyd gan gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned.

- Angen rhoi gwybodaeth fwy manwl i bartneriaid am oblygiadau costau er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau mwy gwybodus o ran y posibilrwydd o gymryd drosodd y cyfrifoldeb am redeg toiledau cyhoeddus (Llangefni; Y Fali).
- Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gael Cynghorau Cymuned cyfagos yn gweithio gyda'i gilydd i redeg toiledau cyhoeddus (ee Y Fali ac ardal Ynys Cybi) – byddai modd cychwyn trafodaethau unwaith y byddai gwybodaeth fanwl am y costau ayyb ar gael.
- Byddai cau toiledau cyhoeddus yn groes i Gynllun Rheoli Cyrchfan y Cyngor (Biwmares)
- Awgrymwyd y gallai Cynghorau Cymuned weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol a gwneud cais am grantiau gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i redeg toiledau cyhoeddus (Caergybi)
- Cyfeiriwyd at yr opsiwn o gael cymunedau'n rhan o bartneriaeth '50-50' gyda'r Cyngor Sir – mae hyn yn weithredol yn barod ym Miwmares (Biwmares).
- Angen edrych ar godi tâl am ddefnyddio toiledau cyhoeddus (Llanfihangel-sceifiog)
- Angen symleiddio'r broses a lleihau amserlenni o ran sefydlu a rhoi mentrau cymdeithasol ar waith (Llangefni).
- Cynnal a chadw dros y Gaeaf (graeanu ayyb) – Byddai modd i wirfoddolwyr helpu i glirio llwybrau, lonydd stadau ayyb mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol (Llangefni).
- Pam mae pedwar o'r pum cyngor tref wedi gweld gostyngiad arfaethedig yng nghyfradd praeseptau 2013/14?

Gweithredu: Eglurhad ysgrifenedig i'w gylchredeg i'r pum Cyngor Tref.

- Awgrym y gallai Cynghorau Cymuned gymryd mantais o'u pwerau i gynyddu praeseptau er mwyn ariannu mentrau newydd (Caergybi).
- Angen gostwng costau craidd. Mae'r cynnydd i lwfansau aelodau (sydd wedi'i osod yn genedlaethol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) yn rhoi argraff wael (Trearddur).

- Angen sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu tynnu i mewn i brosesau gwneud penderfyniadau ar y cychwyn (Y Fali; Biwmares)

Dyweddodd Stan Zalot bod Cyngor Tref Biwmares yn bwriadu cyflwyno adroddiad cynhwysfawr i'r Cyngor Sir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori a gofynnodd am ymateb ffurfiol i'r adroddiad hwnnw.

Cafwyd sicrwydd gan y Pennaeth dros dro – Adnoddau y byddai ymateb yn cael ei ddarparu ac fe ychwanegodd y bydd y Cyngor hefyd yn rhoi adroddiad at ei gilydd a fydd yn cynnwys yr holl sylwadau a dderbyniwyd.

Gweithredu: Cyngor Tref Biwmares i gael ymateb ffurfiol i'w sylwadau ysgrifenedig wedi iddynt ddod i law y Cyngor.

4. Unrhyw Fater Arall

4.1 Trefniadau Gweithio ar y Cyd

Yn rhinwedd ei rôl fel swyddog arweiniol o ran datblygu'r bartneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned, nododd y Cyfarwyddwr Cymuned ei bwriad i ddatblygu'r trefniadau hyn ymhellach trwy fynd allan at y cymunedau. Gan na fyddai'n ymarferol ymweld â phob un Cyngor Cymuned yn unigol, awgrymodd y dylid clystyru cymunedau gyda'i gilydd i sefydlu cyfarfodydd ar sail ardal ac y byddai modd datblygu rhaglen waith yn ystod 2013/14.

Croesawyd y cynnig uchod gan y cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned a oedd yn bresennol ac fe gytunwyd y dylid trafod y mater yn fwy manwl yn y cyfarfod cyswllt nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 yh.